Manteision Bod yn Ddwyieithog

Ein nod yw paratoi'n disgyblion i weithle i'r dyfodol yng Nghymru a thu hwnt. Bydd y disgyblion yn cael profiad o amgylchedd dysgu dwyieithog. Byddant yn cael eu hannog a'u cefnogi i gynnal a gwella'u sgiliau Cymraeg ar hyd eu hamser yn Ysgol Gyfun Emlyn.

Mae ein hysgol yn rhoi pwys mawr ar Gymru, y Gymraeg a'n diwylliant Cymreig. Trwy ofalu am ein gilydd ac am ein hamgylchedd, byddwn yn creu awyrgylch gwaraidd a chefnogol sy'n caniatáu pob unigolyn yng nghymuned yr ysgol i gael cyfle i ddatblygu eu llawn botensial a theimlo'n gysurus â'u personoliaeth a'u hunaniaeth.

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'n hysgol. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion sgwrsio, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd rhoi'r cyfleoedd hyn i'r disgyblion yn gwella'u rhagolygon gwaith yn y dyfodol. Trwy wneud y penderfyniad i fynychu Ysgol Gyfun Emlyn, bydd eich plentyn yn gallu:

- siarad mwy nag un iaith a chael profiad o wahanol ddiwylliannau
- meddwl yn fwy hyblyg a chreadigol
- gwella'u rhagolygon gwaith
- cyfathrebu gydag amrywiaeth ehangach o bobl
- cymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd y gymuned